# Y Sied

Byddai Dylan Thomas yn mynd i ysgrifennu yn y '*Writing Shed*', hen sied feics uwchben ei dŷ, y *Boathouse* yn Nhalacharn.



Er nad oedd y sied yn foethus ac
'n aml yn anniben, byddai'r
lonyddwch a'r olygfa'n ysgogi
)ylan i ysgrifennu.

1ae copïau o'i lyfrau a'i
odiadau'n dangos sut roedd yn
hwarae â geiriau gan wneud
hestri o eiriau tan iddo ddod o
yd i'r union air i'w ddefnyddio.

Ysgrifennodd y cerddi 'Do Not Go Gentle' a 'Over Sir John's Hill' yma yn ogystal â'i ddrama enwocaf, *Under Milk Wood* neu *Dan y Wenallt* yn Gymraeg.

Cafodd replica o'r sied ei greu yn 2014. Mae'n teithio o amgylch Cymru er mwyn i bobl allu gweld yr ystafell lle ysgrifennodd Dylan rhai o'i ddarnau enwocaf.